# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 6 Tachwedd 2012** |
| Amser: | **09:30 - 10:25** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_06_11_2012&t=0&l=cy**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Elin Jones**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Sarita Marshall (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd Elin Jones i'r Pwyllgor a diolchodd i Bethan Jenkins am ei chyfraniad i'r broses ddeisebu.
Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. Deisebau newydd

### 2.1 P-04-429 Ailagor y rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i holi a fu unrhyw newid yn y sefyllfa ers ei ohebiaeth ddiwethaf â'r Pwyllgor ar y mater hwn.

### 2.2 P-04-430 Y bwriad i gau Uned Mân Anafiadau Dinbych-y-pysgod

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Hywel Dda i ofyn ei farn ar y ddeiseb, gan anfon copi at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal â Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

### 2.3 P-04-431 Preswylwyr Sir Benfro yn erbyn toriadau i wasanaethau iechyd

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Hywel Dda i ofyn ei farn ar y ddeiseb, gan anfon copi at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal â Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

### 2.4 P-04-432 Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn Ysgolion

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i:
Ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn ei farn ar y ddeiseb; a
Gwneud cais am bapur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil ar y materion a gafodd eu codi yn y ddeiseb.

### 2.5 P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.
Nododd Joyce Watson ei bod wedi llofnodi Datganiad Barn ar y mater hwn.
Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am farn Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar y ddeiseb ac i ofyn pryd y byddai canfyddiadau'r ymgynghoriad ar weithredu Rheoliadau'r UE ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd yn cael eu cyhoeddi.

### 2.6 P-04-434 Mae'r Cymry a'r Somalïaid fel ei gilydd yn caru barddoniaeth

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Llywydd i ofyn ei barn ar y ddeiseb.

### 2.7 P-04-435 Gweithredu Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau 2018 ar Sail Ddi-ddifidend

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i ofyn ei farn ar y ddeiseb.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-404 Awyrennau Di-Beilot Aberporth

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn am eu barn ar yr ymateb gweinidogol.

### 3.2 P-04-421 Rhwystro Trident rhag dod i Gymru

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu eto at y Prif Weinidog i ofyn ei farn ar y cais penodol sydd wedi'i nodi yn y ddeiseb.

**3.3 P-04-398 Ymgyrch dros gael cofrestr ar gyfer pobl sy'n cam-drin anifeiliaid yng Nghymru**

Cytunodd y Pwyllgor i:
Chwilio am dystiolaeth gytbwys ar y mater, gan gynnwys tystiolaeth gan yr heddlu;
Cynnal ymgynghoriad ar y mater;
Mynd ar ymweliad safle i loches anifeiliaid.

**3.4 P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog i holi pa mor debygol ydyw y bydd y cais y soniodd amdano yn ei lythyr yn llwyddo.

**3.5 P-03-222 Y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol**

O ganlyniad i waith Llywodraeth Cymru a'r gwelliannau a wnaed yn dilyn rhoi'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn ar waith, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.

**3.6 P-04-334 Uned arennol newydd yn Ysbyty Tywysog Siarl**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am y penderfyniadau a wnaed yn dilyn trafodaethau â Rhwydwaith Clinigol Arennol Cymru.

**3.7 P-04-408 Gwasanaeth i atal anhwylder bwyta ymysg plant a phobl ifanc**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at BEAT i ofyn ei farn ar yr ymateb gweinidogol ac i holi a yw o'r farn bod gwasanaethau cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anhwylder bwyta yn ddigonol yng Nghymru.

**3.8 P-04-335 Sefydlu tîm criced cenedlaethol i Gymru**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ddrafftio adroddiad byr er mwyn cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y mater.

**3.9 P-04-365 Diogelu adeiladau nodedig ar safle hen Ysbyty Canolbarth Cymru**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb.
Nododd y Cadeirydd, yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd sir, ei fod wedi trafod y mater gyda'r ddwy ochr.
Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog am y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa, gan gynnwys a fyddai'n ystyried rhoi'r adeilad ar restr leol.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Derbyniwyd y cynnig.

### 4.1 P-04-341 Llosgi gwastraff - adroddiad drafft

Derbyniwyd yr adroddiad drafft yn amodol ar amryw welliannau.